**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL GWASANAETHAU BYSIAU (Rhif 2)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29 sy'n rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) ("Bil y DU") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Rhagfyr 2024. Mae Bil y DU ar gael yn: Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) [Tŷ'r Arglwyddi]

## Amcan y polisi

3. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu gwasanaethau bysiau gwell drwy rymuso arweinwyr lleol yn Lloegr i ddewis y model gweithredu bysiau sy'n gweithio i'w hardal leol a darparu pwerau i ategu'r modelau hynny'n effeithiol. Y nod yw helpu i wella gwasanaethau bysiau a chynyddu'r defnydd ohonynt, wrth i deithwyr elwa ar rwydwaith mwy dibynadwy sy'n darparu'r cysylltiadau sydd eu hangen ar bobl ledled y wlad.

4. Y bwriad yw rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd i arweinwyr lleol dros gyllid bysiau a rhoi'r rhyddid iddynt wneud penderfyniadau i gyflawni eu blaenoriaethau o ran trafnidiaeth leol drwy'r canlynol:

   a. Grymuso awdurdodau trafnidiaeth lleol a diwygio cyllid.
   b. Caniatáu i bob cymuned ad-ennill rheolaeth dros eu bysiau.
   c. Cyflymu'r broses masnachfreinio bysiau.
   d. Sicrhau bod darparu gwasanaethau lleol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol yn cael ei ystyried yn briodol.
   e. Cefnogi perchnogaeth gyhoeddus.

## Crynodeb o Fil y DU

5. Noddir Bil y DU gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT).

6. Mae Bil y DU yn darparu ar gyfer y canlynol:

   i. Masnachfreinio – mae Bil y DU yn galluogi pob awdurdod trafnidiaeth lleol i fasnachfreinio eu gwasanaethau bysiau heb fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

   ii. Gwasanaeth lleol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol – nod y mesur hwn yw hyrwyddo ffordd ehangach o feddwl o ran rheoli rhwydwaith lleol, gan gynnwys sut mae gwasanaethau bysiau yn cael eu cynnal.

iii. Partneriaethau Gwell – bydd Bil y DU yn cryfhau'r dull partneriaeth rhwng awdurdodau trafnidiaeth lleol a gweithredwyr bysiau.

iv. Cwmnïau bysiau sy'n eiddo i awdurdodau lleol - bydd Bil y DU yn diddymu'r gwaharddiad ar sefydlu cwmnïau bysiau newydd gan awdurdodau lleol.

v. Grantiau – bydd Bil y DU yn rhoi pŵer i awdurdodau trafnidiaeth lleol wneud grantiau i weithredwyr gwasanaethau bysiau yn eu hardaloedd.

vi. Gwybodaeth am wasanaethau lleol (cofrestru bysiau) - bydd darpariaethau ar gofrestru bysiau yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau trafnidiaeth lleol mewn ardaloedd Partneriaeth Gwell gyda swyddogaeth gofrestru ddirprwyedig, ac awdurdodau masnachfreinio, i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau bysiau i leoliad cyffredin ac yn ôl safon data a ddiffinnir mewn is-ddeddfwriaeth.

vii. Gorfodi – mae Bil y DU yn cynnwys mesurau i wella diogelwch ar fysiau drwy roi mwy o bwerau i awdurdodau trafnidiaeth lleol gyflwyno is-ddeddfau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a helpu i wella diogelwch ar fysiau. Mae'r Bil hefyd yn diwygio adran 24 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 i roi pwerau ychwanegol i awdurdodau trafnidiaeth lleol orfodi gofynion o ran prisiau siwrneiau.

viii. Diogelwch a hygyrchedd mannau stopio – mae Bil y DU yn cynnwys y mesur i ddatblygu canllawiau statudol ar gynhwysiant safleoedd a gorsafoedd bysiau a chyfleusterau.

ix. Diogelu ar gyfer gwasanaethau ysgol - mae Bil y DU yn cynnwys mesur i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus wirio tystysgrif cofnod troseddol manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r gyrrwr ar y rhestr wahardd ar gyfer plant, i yrwyr sy'n cynnal gwasanaethau cludiant ysgol caeedig ("closed") yn aml neu fwy na 3 gwaith mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod.

x. Hyfforddiant staff – mae Bil y DU yn cynnwys pwerau i orfodi hyfforddiant gyrwyr bysiau ac eraill ar fynd i'r afael â throsedd (y bwriada Llywodraeth y DU y bydd yn cynnwys troseddau yn erbyn menywod a merched) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o anabledd a chymorth anabledd.

xi. Bysiau di-allyriadau (ZEBs) – bydd y mesur hwn yn cyflymu'r broses o gyflwyno bysiau di-allyriadau drwy gyflwyno cyfyngiad ar ddefnyddio bysiau di-allyriadau newydd ar wasanaethau bysiau lleol cofrestredig. Ni fydd y cyfyngiad yn gallu cymryd effaith cyn 1 Ionawr 2030.

7. Cafodd fy swyddogion nifer o gyfarfodydd a negeseuon e-bost gyda chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024 i drafod y cynigion ar gyfer Bil y DU. Hefyd, cynhaliodd swyddogion yr Adran Drafnidiaeth ddau weithdy ar gyfer rhanddeiliaid

diwydiant bysiau Lloegr, a fynychwyd gan fy swyddogion. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil hwn.

8. Mae Bil y DU yn gwneud nifer o newidiadau i'r statud presennol, gan gynnwys Deddf Trafnidiaeth 1985 a Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981. Mae'r rhain eisoes wedi cael eu diwygio sawl gwaith gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae hyn yn ychwanegu at eu cymhlethdod a'r amser y mae wedi'i gymryd i fynd i'r afael â'r manylion a sut maent yn gymwys i Gymru.

9. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd Bil y DU ar 17 Rhagfyr 2024, yn union cyn y toriad.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Yn fy marn i, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 23.

    **Cymal 23 - Pwerau arolygwyr**. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 24 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr (Deddf 1981) i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch ymddygiad arolygwyr sydd wedi'u hawdurdodi gan awdurdod trafnidiaeth lleol yn Lloegr, mewn perthynas â gwasanaeth lleol sydd â man stopio yn Lloegr, p'un a yw'r cerbyd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Lloegr ai peidio. Mae hyn yn golygu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, alluogi arolygydd sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol yn Lloegr i gynnal arolygiad o wasanaeth trawsffiniol, tra bo'r cerbyd yng Nghymru.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

11. Noder, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly nad ydynt yn sbarduno'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)**

12. Nid yw'r ddarpariaeth yn effeithio ar allu gweithredwr i benodi arolygwyr ar eu gwasanaethau bysiau lleol (h.y. sydd ag un neu fwy o fannau stopio yng Nghymru). Fodd bynnag, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio ymddygiad arolygwyr gwasanaethau trawsffiniol, tra bônt yng Nghymru neu Loegr mewn rhai amgylchiadau, o dan adran 24 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981, fel y'i diwygiwyd gan gymal 23 (ar yr amod bod yr arolygydd wedi'i awdurdodi i weithredu felly gan awdurdod trafnidiaeth Lloegr).

13. Bydd yn parhau i fod yn wir na all awdurdodau lleol yng Nghymru benodi arolygwyr ("inspectors") at ddibenion adran 24 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 oni bai eu bod yn gwneud hynny yn rhinwedd

eu swyddogaeth fel gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â gwasanaethau penodol.

14. Nid wyf yn pryderu am effaith y ddarpariaeth hon ar wasanaethau bysiau yng Nghymru oherwydd ni fyddant yn newid gallu gweithredwyr i benodi arolygwyr yng Nghymru.

15. Mae natur gydgysylltiedig y system drafnidiaeth yng Nghymru a Lloegr yn golygu ei bod yn anochel y bydd gorgyffwrdd o ran buddiannau. Fodd bynnag, yn achos cymal 23 nid yw'n ceisio gwneud darpariaeth i Gymru, ond bydd yn effeithio ar fater datganoledig, h.y. gwasanaethau bysiau lleol.

**Goblygiadau ariannol**

16. Mae'n annhebygol y bydd gan y diwygiad oblygiadau ariannol i weithredwyr gwasanaethau bysiau na'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Casgliad**

17. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 12 i 15 uchod.

18. Felly, rwy’n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi’r cynnig a rhoi ei chydsyniad.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**11 Mawrth 2025**